**Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 09 Chwefror 2023 trwy Zoom**

**Yn bresennol**
Julia Hughes - JH (Cadeirydd)
Sally Ellis - SE (Dirprwy Gadeirydd)
Gareth Pritchard - GP
Y Cynghorydd Marion Bateman, Cyngor Sir y Fflint
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes, Cyngor Gwynedd

Matt Georgiou – MG (Dirprwy Swyddog Monitro/Clerc)
Lisa Allington – LJA (Swyddog Cyswllt yr Aelodau)

**Ymddiheuriadau**
Gill Murgatroyd - GM

**Yn absennol**

---

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00

1 **YMDDIHEURIADAU**

1.1 Cynigiwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gill Murgatroyd. Roedd yr holl Aelodau eraill yn bresennol.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Dim.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Dim.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

4.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2022 fel cofnod cywir.

**5 MATERION YN CODI**

5.1 Cyfeiriwyd at baragraff 5.2 o'r cofnodion blaenorol, yn ymwneud â Chadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod â Chadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion yr ATA, y Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol.

5.2 Cynhaliwyd y cyfarfod hwn a'r materion a drafodwyd oedd: Adolygiad Penn, ymweliadau Aelodau Annibynnol i arsylwi ar gyfarfodydd yr Awdurdod, Presenoldeb Aelodau ac Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.

5.3 Cytunwyd y byddai cyfarfod pellach o'r Cadeiryddion a'r Dirprwy Gadeiryddion yn cael ei gynnal er mwyn trafod Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Safonau, unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor.

5.4 O ran paragraff 11.10/iv ar egluro'r sefyllfa o ran tâl am arsylwadau mewn cyfarfodydd, cadarnhawyd y byddai ad-daliad yn cael ei dalu i Aelodau Annibynnol am eu hamser yn arsylwi ar gyfarfodydd.

5.5 **PENDERFYNWYD:**
**i) trefnu cyfarfod pellach rhwng Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a Chadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion holl gyfarfodydd yr Awdurdod, cyn cyfarfod yr Awdurdod Llawn ar 17 Ebrill.**

## 6 ATODLEN AR GYFER ADOLYGU CODAU A PHROTOCOLAU O FEWN CYFANSODDIAD YR AWDURDOD

6.1 Cyflwynwyd papur i'r Aelodau gan y Dirprwy Glerc a argymhellodd fod Aelodau'n cytuno ar raglen ar gyfer adolygu holl brotocolau'r cyfansoddiad, sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Safonau (y Pwyllgor), yn ystod tymor Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

6.2 Eglurodd y Dirprwy Glerc, er bod y Polisi Rhoddion yn parhau i fod yn fater i'r Pwyllgor, mae'r Polisi Chwythu'r Chwiban bellach o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio.

6.3 Nodwyd bod peth gwaith wedi deillio o adolygiad Penn ynghylch gwerth rhoddion y mae angen i aelodau wneud datganiad amdanynt. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys cytuno ar werth unffurf ar draws yr holl awdurdodau perthnasol yng Nghymru a fyddai'n rhan o'r holl godau ymddygiad perthnasol.

6.4 **PENDERFYNWYD:**
**i) mabwysiadu'r amserlen arfaethedig ar gyfer adolygu codau a phrotocolau.**

## 7 ADBORTH GAN AELODAU ANNIBYNNOL AR ARSYLWADAU AELODAU O GYFARFODYDD YR AWDURDOD (AR LAFAR)

7.1 O fewn y cyfarfod blaenorol, cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn penderfynu pa Aelodau fyddai'n arsylwi ar ba gyfarfodydd. Gan nad

oedd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion yr Awdurdod wedi cael gwybod am y cynnig o'r blaen, nid oedd arsylwadau wedi dechrau eto.

7.2 Roedd rhai Aelodau wedi arsylwi ar recordiadau o gyfarfodydd yn anffurfiol; fodd bynnag, gan nad oedd y fformat y cytunwyd arno ar gyfer arsylwadau wedi'i ddefnyddio, ni roddwyd adborth i'r Pwyllgor.

7.3 Teimlai'r Aelodau fod arsylwadau'n fwy effeithiol wrth eu cynnal yn y cyfarfodydd, yn hytrach nag adolygu'r gweddarllediad, a chytunwyd y byddai arsylwadau yn y dyfodol yn digwydd trwy fynychu'r cyfarfodydd yn hytrach na gwylio recordiadau ohonynt.

7.4 Cytunwyd y byddai GM yn arsylwi ar gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, byddai SE yn arsylwi ar gyfarfodydd y Panel Gweithredol ac y byddai GP yn arsylwi ar gyfarfodydd yr Awdurdod Llawn, gan ddefnyddio'r ffurflen arsylwi swyddogol a ddarparwyd. Byddai'r arsylwadau hyn yn digwydd cyn mis Ionawr 2024.

7.5 Cytunwyd ymhellach, pe na bai unrhyw un o'r tri Aelod Annibynnol yn gallu arsylwi ar y cyfarfod a ddyrannwyd iddynt, eu bod yn cynghori JH ac y byddai hi'n mynychu yn eu lle.

7.6 **PENDERFYNWYD:**
**i) mynychu ac arsylwi ar gyfarfod yr Awdurdod, fel y dyrennir ym mharagraff 7.4.**

## 8 ADRODDIAD GAN Y DIRPRWY GLERC AR GŴYNION YR YMCHWILIWYD IDDYNT GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU YN YMWNEUD AG AELODAU AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU (AR LAFAR)

8.1 Cadarnhaodd y Dirprwy Glerc ei fod wedi adolygu'r Adroddiadau Blynyddol a gynhyrchwyd gan yr Ombwdsmon o adroddiad 2006/7 hyd yma ac ni fu unrhyw ymchwiliadau mewn perthynas â thorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Awdurdod Tân yn ystod y cyfnod hwnnw.

8.2 Derbyniwyd dwy gŵyn gan yr Ombwdsmon yn 2013/14 ac un yn 2020/21, ond nid ymchwiliwyd i'r rhain.

8.3 **PENDERFYNWYD:**
**i) ychwanegu'r wybodaeth uchod at yr Adroddiad Blynyddol Drafft (MG)**

## 9 AILBENODI AELODAU ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR SAFONAU (AR LAFAR)

9.1 Adolygwyd aelodaeth Annibynnol y Pwyllgor yn rheolaidd gan y Clerc a'r Dirprwy Glerc, a nodwyd y byddai cyfnodau GP a GM yn dod i ben ym mis Awst 2023. Mae'r rheoliadau'n caniatáu i aelod annibynnol wasanaethu tymor pellach fel aelod pwyllgor heb fod angen hysbysebu ac ailrecriwtio.

9.2 **PENDERFYNWYD:**
**i) argymell bod GP a GM yn cael eu hailbenodi, pe baent yn cadarnhau eu bod yn fodlon ac yn gallu gwasanaethu am dymor arall.**

## 10 PRESENOLDEB AELODAU YNG NGHYFARFODYDD YR AWDURDOD

10.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc bapur gyda'r bwriad o ystyried a mynd i'r afael ag unrhyw bresenoldeb gwael yng nghyfarfodydd yr Awdurdod.

10.2 Nodwyd bod rhai cyfraddau presenoldeb isel ar hyn o bryd ond, gan mai ychydig iawn o gyfarfodydd a gafwyd hyd yma, nid oedd hwn yn ddangosydd cywir o dueddiadau eto.

10.3 Nododd un Aelod fod y fformat presennol o gynnal cyfarfodydd ar-lein yn well ganddynt hwy, a theimlai fod hyn wedi cynyddu presenoldeb yr Aelodau.

10.4 **PENDERFYNWYD:**
**i) ystyried cyfraddau presenoldeb yng nghyfarfodydd yr Awdurdod hwn ers mis Mehefin 2022; ac**
**(ii) ysgrifennu at awdurdodau cyfansoddol ac unrhyw aelodau o'r Awdurdod lle mae'r presenoldeb yn is na 50% (MG)**

## 11 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – CYHOEDDI EIN CANFYDDIADAU (AR LAFAR)

11.1 Hysbysodd y Dirprwy Glerc yr Aelodau bod problemau technegol wedi bod wrth gyhoeddi 'Ein Canfyddiadau' ac o'r herwydd, nid oedd yr adroddiad a ddarparwyd fel arfer ar gael.

11.2 **PENDERFYNWYD:**
**i) cynnwys y data ar gyfer y cyfnod hwn yn yr adroddiad nesaf yn y cyfarfod ar 13 Hydref 2023.**

## 12 CYLCH GORCHWYL Y FFORWM SAFONAU CENEDLAETHOL AR GYFER CADEIRYDDION PWYLLGORAU SAFONAU YNG NGHYMRU

12.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc bapur ar Gylch Gorchwyl y Fforwm Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau yng Nghymru, a'i ddiben oedd derbyn a nodi'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Pwyllgorau Safonau yng Nghymru.

12.2 Tynnodd y Cadeirydd sylw at bwysigrwydd sicrhau bod unrhyw un sy'n dirprwyo yn y fforwm hwn yn cael ei friffio'n drylwyr.

12.3 **PENDERFYNWYD:**
**i) cytuno ar y Cylch Gorchwyl drafft; a**
**ii) chymeradwyo'r trefniadau arfaethedig i gefnogi'r Fforwm Cenedlaethol**
.

**13 ADBORTH AR GYFARFOD CYNTAF Y FFORWM SAFONAU CENEDLAETHOL AR GYFER CADEIRYDDION PWYLLGORAU SAFONAU YNG NGHYMRU (AR LAFAR)**

13.1 Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Fforwm Cenedlaethol ar 27 Ionawr 2023. Penodwyd Clive Wolfendale, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Conwy yn Gadeirydd y Fforwm am gyfnod o ddwy flynedd a phenodwyd Jason Bartlett, Cadeirydd Pwyllgor Safonau a Moeseg Caerdydd yn Ddirprwy Gadeirydd.

13.2 Rhoddwyd adborth i'r Aelodau ar y cyfarfod cyntaf hwn gan y Cadeirydd, a eglurodd y byddai'r cyfarfodydd hyn yn cael eu defnyddio fel fforwm i drafod materion o bwys, ond nad oedd ganddynt y pŵer i wneud penderfyniadau.

13.3 Cytunwyd y byddai cofnodion y cyfarfod hwn yn cael eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor unwaith y byddent ar gael.

13.4 Byddai cyfarfod nesaf y Fforwm yn cael ei gynnal ym mis Mehefin/Gorffennaf 2023.

**14.0 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT Y PWYLLGOR SAFONAU AR GYFER 2022/23**

14.1 Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022/23 gan y Dirprwy Glerc ar gyfer sylwadau ac ystyriaeth yr Aelodau.

14.2 Nodwyd nad dim ond mater o lywodraethu corfforaethol da ydyw mwyach i'r Pwyllgor Safonau ddarparu adroddiad blynyddol i'r Awdurdod ar ei weithgareddau yn ystod pob blwyddyn ariannol, a'i fod yn ofyniad statudol bellach.

14.3 Nodwyd ymhellach y byddai cyfarfod nesaf yr Awdurdod yn cael ei gynnal ar 17 Ebrill, nid 14 Mawrth fel y nodir ym mharagraff 4(i) yr adroddiad.

14.4 Gofynnodd un Aelod iddo gael ei nodi yn yr adroddiad bod gwariant wedi bod yn gyson â blynyddoedd blaenorol, er y gallai hyn gynyddu ychydig oherwydd arsylwi ar gyfarfodydd. Byddai union ffigur yn cael

ei osod yn yr adroddiad pan fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Llawn.

14.5 Cytunwyd y byddai'r drafft wedi'i ddiweddaru yn cael ei gylchredeg i bob aelod y Pwyllgor ei gymeradwyo, ac yn absenoldeb unrhyw sylwadau, byddai'r adroddiad drafft wedi'i ddiweddaru yn cael ei ystyried fel un wedi'i gymeradwyo.

14.6 **PENDERFYNWYD:**
**i) ystyried yr adroddiad drafft ynghlwm ac awgrymu diwygiadau fel y bo'n angenrheidiol, gan nodi y bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i'r cyfarfod ATA ar 17 Ebrill 2023, ac y dylai crynodeb o'r materion i'w hystyried a'u trafod yng nghyfarfod 09 Chwefror 2023 gael ei ychwanegu.**

**15 BLAENGYNLLUN GWAITH**

15.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc y Blaengynllun Gwaith i'r Aelodau.

15.2 Cytunwyd y byddai protocolau penodol y Pwyllgor yn cael eu hychwanegu at y Blaengynllun Gwaith.

15.3 **PENDERFYNWYD:**
**i) symud ymlaen gyda'r Blaengynllun Gwaith, gyda'r diwygiad uchod.**

**16 MATERION BRYS**

16.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

16.2 **Nid oedd unrhyw benderfyniadau ar gyfer yr eitem hon.**

**Cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 13 Hydref 2023**

**Daeth y cyfarfod i ben am 11:35**